

Rhif: LIC43537



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Y Cwricwlwm i Gymru:
Y Cod Cynnydd drafft

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Y Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Cynnydd

Cynulleidfa

Ymarferwyr addysg; ysgolion a gynhelir; lleoliadau meithrin a ariennir ond nas cynhelir; unedau cyfeirio disgyblion; lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol; awdurdodau lleol; consortia addysg rhanbarthol; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion awdurdodau esgobaethol; undebau llafur ac Estyn.

Trosolwg

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cod Cynnydd drafft.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: [Y cod cynnydd drafft | LLYW.CYMRU](#)

Dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yma: [Y cod cynnydd drafft | LLYW.CYMRU](#)

Mae'r canllawiau ar gyfer Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar gael yma: [Cwricwlwm i Gymru - Hwb \(gov.wales\)](#)

Cynnwys

Y Cwricwlwm i Gymru	2
Y cod cynnydd	3
Y broses ymgynghori	3
Crynodeb o ganfyddiadau'r ymatebion	5
Cwestiwn 1 – defnyddioldeb egwyddorion cyffredinol	6
Cwestiwn 2 – eglurder egwyddorion cyffredinol	7
Cwestiwn 3 – cywirdeb yr egwyddorion penodol i bob Maes	8
Cwestiwn 4 – eglurder yr egwyddorion penodol i bob Maes	10
Cwestiwn 5 – cymorth pellach	11
Cwestiwn 6 – yr effaith ar y Gymraeg	15
Cwestiwn 7 – gwella'r Gymraeg	16
Cwestiwn 8 – gwybodaeth ychwanegol	17

Y Cwricwlwm i Gymru

1. Caiff [Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru](#) (y Fframwaith) ei bennu yn genedlaethol ac mae'n cynnwys gofynion y cwricwlwm, fel y'u nodir mewn deddfwriaeth, ac ystod o ganllawiau ategol. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020, ac mae'n cynnwys egwyddorion cynnydd cyffredinol a rhai penodol i bob maes dysgu a phrofiad (y Meysydd).
2. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, a'r canllawiau eraill a gyhoeddir ochr yn ochr ag ef, wedi'u llunio ar y cyd. Maent wedi'u datblygu yng Nghymru, gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr, gan ddwyn ynghyd arbenigedd addysgol ac ymchwil a thystiolaeth ehangach. Maent wedi'u cyhoeddi'n bennaf i helpu ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain ac i fodloni gofynion a nodir mewn deddfwriaeth. Darparwyd arbenigedd ar gynnydd dysgu, yn rhannol, drwy'r prosiect [CAMAU](#), sef cydweithrediad rhwng Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glasgow, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.
3. Dyluniwyd y Fframwaith i helpu ymarferwyr i ddatblygu dull mwy integredig o ddysgu. Mae'r chwe Maes yn dwyn ynghyd ddisgyblaethau cyfarwydd, ac maent yn annog cysylltiadau ystyrlon a chadarn ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Bydd gan y disgyblaethau unigol hynny ran bwysig i'w chwarae o hyd, yn arbennig wrth i ddysgwyr wneud cynnydd a dechrau arbenigo.
4. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn annog cydweithio a chynllunio, dysgu ac addysgu trawsddisgyblaethol, yn y Meysydd ac ar eu traws. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin cysylltiadau ar draws eu dysgu gan gyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau. Mae cynnydd drwy'r continwwm dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed yn egwyddor hanfodol sy'n sail i'r Fframwaith ac i'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau.
5. Mae 5 egwyddor gyffredinol o ran cynnydd yn y Fframwaith hwn. Ategir y rhain gan 5 egwyddor cynnydd ar gyfer pob Maes. Mae nodi'r egwyddorion hyn yn y Cod yn sicrhau lefel o gysondeb wrth ddylunio'r cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion, gan fod rhaid iddynt ddatblygu eu cwricwla

gyda dulliau cynnydd dysgu, gan ddefnyddio'r egwyddorion hyn sy'n seiliedig ar ymchwil.

6. Mae cynnydd, gyda chefnogaeth amrywiaeth o ddulliau asesu, yn galluogi'r dysgwyr a'r ymarferydd i ddeall ble mae dysgwyr arni a beth sydd angen iddynt ei wneud nesaf.

Y cod cynnydd

7. Mae'r Cod cynnydd yn is-ddeddfwriaeth a ddatblygwyd o dan adran 7 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf). Mae'n nodi'r 5 egwyddor gyffredinol a'r 30 o egwyddorion cynnydd dysgu penodol i bob Maes y mae rhaid i bob ysgol a gynhelir a lleoliadau a ariennir ond nas cynhelir seilio eu cwricwlwm arnynt. Mae'r egwyddorion cynnydd hyn yn rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.
8. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio'r Cod, ymgynghori ar ei gynnwys a'i adolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r gofyniad ar ysgolion a lleoliadau i ddefnyddio'r egwyddorion cynnydd a nodir yn y Cod yn cyd-fynd â gofynion eraill o ran dylunio a datblygu eu cwricwlwm o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

Y broses ymgynghori

9. Roedd fersiynau cynharach o'r datganiadau cynnydd yn destun ymgynghoriad 12 wythnos fel rhan o'r ymgynghoriad a oedd yn cwmpasu holl ganllawiau drafft Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn 2019. Roedd hwn yn ymgynghoriad sylweddol gyda dros 2,000 o ymatebion amrywiol gan ymarferwyr, arweinwyr ysgolion, rhieni, grwpiau â diddordeb arbennig, y sector cyhoeddus a phlant a phobl ifanc. Ochr yn ochr â mewnbwn gan grwpiau ffocws, cawsom 1,680 o gyflwyniadau digidol, ynghyd ag adborth gan 423 o ddysgwyr. Mae cyfres o [adroddiadau sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad](#) hwnnw ac ymatebion iddo wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

10. Yn fwy diweddar, cynhaliwyd yr ymgynghoriad penodol ar y Cod cynnydd drafft rhwng 21 Mai ac 16 Gorffennaf 2021. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo i gynulleidfa eang o randdeiliaid gan gynnwys ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Comisiynydd Plant Cymru, grwpiau plant, Estyn, ac undebau llafur.
11. Arweiniodd yr ymgynghoriad penodol hwn ar y Cod drafft at gyfanswm o dri deg dau o ymatebion, a chyflwynwyd un ohonynt yn Gymraeg. Roedd ymatebion gan ymarferwyr yn cyfrif am tua dwy draean o'r ymatebion a gyflwynwyd, a chafodd y rhain eu hategu hefyd gan ymatebion a gyflwynwyd gan gyrrff sy'n cynrychioli ymarferwyr, megis undebau llafur addysgol. Daeth gweddill yr ymatebion gan sefydliadau sy'n rhanddeiliaid (fel Estyn, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol). Ymatebodd un sefydliad trydydd sector, ynghyd â swyddfeydd comisiynwyr. Roedd nifer o'r ymatebion gan randdeiliaid ac ymarferwyr yn rhai sylweddol a manwl. Ni chafwyd ymatebion gan unrhyw riant / gofalwr, dysgwr nac unigolyn nad yw'n ymarferydd.
12. Roedd yr ymgynghoriad ar y Cod cynnydd yn cynnwys 8 cwestiwn allweddol. Roedd y 2 gwestiwn cyntaf yn canolbwyntio ar safbwyntiau ynghylch defnyddioldeb, hygyrchedd ac eglurder y 5 egwyddor gyffredinol.
13. Roedd cwestiynau 3 a 4 yn canolbwyntio ar ddefnyddioldeb, hygyrchedd ac eglurder y gwahanol egwyddorion cynnydd sy'n benodol i bob Maes fel y'u cyhoeddwyd ar ffurf drafft ym mis Ionawr 2020 fel rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.
14. Gofynnodd cwestiwn 5 am safbwyntiau yn benodol ar ba gymorth pellach y gallai ymarferwyr ei gynnig neu fod ei angen wrth iddynt ddatblygu eu cwricwlwm yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod.
15. Roedd cwestiynau 6 a 7 yn gwestiynau ymgynghori safonol gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am safbwyntiau ar oblygiadau'r cynigion ar y Gymraeg. Roedd cwestiwn 8 yn rhoi lle ychwanegol i ymatebwyr gyflwyno safbwyntiau ehangach nad oedd yr arolwg ymgynghori eisoes wedi ymdrin â hwy.

16. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau hyn isod.

Crynodeb o ganfyddiadau'r ymatebion

17. Dyma rai o'r pwyntiau allweddol a godwyd gan ymatebwyr i ymgynghoriad 2021:

- cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddorion, gyda galw am gynnwys eglurhad pellach o'u diben a'u defnydd ymlaen llaw
- yr angen i bwysleisio pwysigrwydd addysgeg effeithiol i gefnogi cynnydd dysgwyr
- rhagor o gydnabyddiaeth i'r broses o gaffael iaith yn y blynyddoedd cynnar, a'r ffaith y gall datblygiad iaith amrywio'n fawr yn dibynnu ar sylfaen ieithyddol dysgwr
- rhagor o bwyslais cyffredinol ar wella effeithiolrwydd fel dysgwr
- yr angen i ddychwelyd at yr egwyddorion a'r Cod ymhen amser ar ôl i ysgolion a lleoliadau gael profiad o weithio gyda nhw.

18. Cafwyd adborth ehangach o'r ddau ymgynghoriad hefyd; mae'r adborth hwn yn awr yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi, rhaglenni a chanllawiau. Dyma oedd y prif bwyntiau ehangach a godwyd:

- yr angen am gymorth penodol, uniongyrchol a pharhaus i ysgolion ar wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, a chafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch y ffocws ar hynny
- rhagor o ganllawiau a chymorth mewn perthynas â dulliau asesu
- yr angen am gysylltiadau clir rhwng cynnydd ac asesu, yn cynnwys datblygu cymwysterau newydd yn seiliedig ar ofynion y Cwricwlwm i Gymru.

19. Mae'r pwynt am yr angen am gymorth pellach a phenodol ar gynnydd dysgu i ysgolion a lleoliadau, a phwysigrwydd hynny, yn thema allweddol sy'n rhedeg drwy ymatebion i'r holl gwestiynau ymgynghori a ofynnwyd yn yr arolwg hwn. Fodd bynnag, i'w gwneud yn haws adrodd arnynt, bydd cyfraniadau ar y mater hwn ond yn cael eu hystyried o dan gwestiwn 5 (sy'n

canolbwyntio'n benodol ar gymorth pellach) yn yr adroddiad hwn, ni waeth ble y codwyd y pwyntiau mewn holiaduron adborth.

Cwestiwn 1 – defnyddioldeb egwyddorion cyffredinol

20. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad.

Pa mor ddefnyddiol yw'r egwyddorion cynnydd ar gyfer ymarferwyr addysg sy'n cynllunio a datblygu eu cwricwlwm?

A sut y gellid eu gwella?

21. O'r ymatebion a gyflwynwyd, roedd ymatebwyr ar y cyfan yn cefnogi'r egwyddorion cynnydd. Fodd bynnag, o fewn y cymorth cyffredinol hwnnw, fe wnaeth nifer o ymatebion gan ymarferwyr dynnu sylw at y ffaith bod yr egwyddorion cyffredinol ychydig yn amwys a bod angen rhagor o eglurder ynghylch eu defnydd, o bosibl drwy gymorth ehangach.

22. Nododd rhai ymatebion gan ymarferwyr i'r cwestiwn hwn ar ddefnyddioldeb yr hoffent weld rhagor o fanylion o ran sut olwg sydd ar gynnydd ym mhob cam cynnydd ac ar draws yr holl Feysydd. Mynegodd rhai ymatebion gan ymarferwyr fod yr egwyddorion cyffredinol, yn ôl eu natur, yn aneglur ac yn rhy amwys i fod o gymorth uniongyrchol wrth gynllunio a datblygu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn eu gweld yn ddefnyddiol iawn, gan nodi bod eu cadw mewn cof o fudd wrth ddatblygu'r cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau.

“Could be improved by giving examples /guidance on how to use them effectively.”

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i'r cwestiwn hwn

23. Roedd tua thraean o'r ymatebion, tra'n gefnogol ar y cyfan, hefyd yn cynnig awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r datganiadau cyffredinol. Ar y cyfan, roedd yr adborth hwn yn ymwneud mwy â chanllawiau pellach i egluro'n well beth yw ystyr cynnydd dysgu, beth yw diben yr egwyddorion, sut maent yn ymwneud â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r disgrifiadau dysgu ym mhob Maes, a sut y disgwylir i ysgolion a lleoliadau eu defnyddio yn eu gwaith o ddatblygu cwricwlwm.

24. Fodd bynnag, cynigiwyd rhai awgrymiadau penodol ar gyfer drafftio newidiadau i'r egwyddorion cyffredinol i'w hystyried. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, yr angen i roi cydnabyddiaeth well i'r broses o gymhwyso gwybodaeth mewn cynnydd dysgu, ochr yn ochr â chaffael gwybodaeth. Enghraifft arall o welliant a awgrymwyd oedd cydnabod sut y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd tuag at fwy o hunan-eiriolaeth ochr yn ochr ag eiriolaeth dros bobl eraill.
25. Mynegodd rhai ymatebwyr hefyd y byddai angen dychwelyd at yr egwyddorion o bryd i'w gilydd ar ôl i ysgolion a lleoliadau gael profiad o ddatblygu'r cwricwlwm a meithrin gwell dealltwriaeth a phrofiad o sut y gall cynnydd dysgu gefnogi'r broses barhaus honno.

Cwestiwn 2 – eglurder egwyddorion cyffredinol

26. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

O ran yr egwyddorion cynnydd cyffredinol, a yw'r rhain yn glir ac yn gywir wrth nodi'r hyn y mae'n ei olygu i ddysgwyr rhwng 3 a 16 oed wneud cynnydd o ran y dysgu ar hyd y cwricwlwm cyfan?

27. O'r chwe ymateb ar hugain i'r cwestiwn hwn, roedd tri ar ddeg ohonynt yn cytuno bod yr egwyddorion cynnydd cyffredinol yn glir ac yn gywir wrth nodi'r hyn y mae'n ei olygu i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed wneud cynnydd drwy'r continwmm dysgu. Roedd 7 ymatebydd arall yn gefnogol ar y cyfan, gan gynnig sylwadau pellach ar y dull gweithredu. Roedd gweddill yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn herio lefel y manylion a ddarparwyd yn yr egwyddorion cyffredinol a'u diben o fewn y Fframwaith. O'r rhai a oedd yn credu nad oedd yr egwyddorion cyffredinol yn ddigon clir a chywir, dim ond ychydig a ddarparodd sylwadau pellach; roedd hyn yn seiliedig i raddau helaeth ar bryderon ynghylch cymhwyso'r egwyddorion yn ymarferol wrth ddatblygu'r cwricwlwm.

“The overarching principles describe the high level thinking re progression and so it is hard to say if they are clear and accurate - they certainly outline a shift in thinking and take away the 'tick box' culture that we have become obsessed with in schools for accountability purposes. They describe what we want for all our learners to enable them to progress towards the four purposes. They will require considerable PL for staff to enable schools to really understand this move away from 'tick boxes'.”

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i'r cwestiwn hwn

28. O'r ymatebwyr hynny a oedd yn cynnig sylwadau pellach, roedd y dull mwy agored a hyblyg o ran cynnydd i'w groesawu. Er hyn, un o'r themâu a amlygwyd oedd bod angen canllawiau llai amwys sy'n nodi'n glir yr hyn a olygir wrth gynnydd. Roedd rhai ymarferwyr yn credu bod rhaid i dermau fel "dyfnder cynyddol" a "sgiliau deallusol" fod yn gliriach ac yn fwy eglur i fod yn ddefnyddiol wrth helpu i gynllunio eu cwricwla.

"In many cases, the overarching principles are clear and should help to provide a consistent framework that leaders and practitioners can use to develop their curricula. They should help to promote a collective understanding of progress across areas of learning. However, in a few cases, terms are ambiguous and would benefit from simplification or exemplification..."

Dyfyniad o ymateb gan randdeiliad addysg i'r cwestiwn hwn

29. Awgrymodd ymatebwyr hefyd yr angen, er enghraifft, am adnoddau, dysgu proffesiynol a ddatblygir yn genedlaethol i helpu i wella dealltwriaeth ymarferwyr o gynnydd ar lefel fwy ystyrlon.

Cwestiwn 3 – cywirdeb yr egwyddorion penodol i bob Maes

30. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

O ran yr egwyddorion cynnydd penodol i bob maes dysgu a phrofiad, a yw'r rhain yn glir ac yn gywir wrth nodi beth sy'n unigryw ac yn benodol am gynnydd ar gyfer dysgwyr rhwng 3 a 16 oed ym mhob maes?

31. Cyflwynwyd saith ar hugain o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd deg ohonynt yn glir o'r farn bod yr egwyddorion penodol i bob maes dysgu a phrofiad (y Meysydd) yn glir ac yn gywir. Roedd wyth ymateb arall yn cefnogi'r egwyddorion, ond yn rhoi sylwadau pellach ar sut y gellid eu datblygu neu eu cymhwyso. Roedd y naw ymateb arall yn anghytuno, gyda thua hanner y rheini yn rhoi sylwadau pellach.

"While I am aware that the new curriculum caters for an openness in learning with scope for creative development (which is excellent), I think there needs to be clarity as to what progressions steps look like regarding achievement."

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i'r cwestiwn hwn

32. Roedd yr ymatebion a oedd yn nodi bod egwyddorion cynnydd penodol i bob Maes yn rhy gyffredinol ac aneglur ar y cyfan wedi'u cyflwyno gan ymarferwyr. O'r ychydig rai a roddodd sylwadau, roeddent yn credu na fyddent yn ddigonol i gael eu defnyddio i asesu cyflawniad a chynnydd dysgwyr. Roedd yn ymddangos bod disgwyliad y byddai'r egwyddorion yn gosod safonau ar gyfer asesu a mesur cyrhaeddiad. Roedd safbwyntiau eraill yn cynnwys: anghysondebau posibl rhwng egwyddorion; diffyg enghreifftiau yn y Cod drafft; yr egwyddorion yn rhy eiriol; a, gyda'i gilydd, yn ormod i ysgolion eu rheoli.
33. O'r tua dwy ran o dair o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn a oedd yn gefnogol ar y cyfan, awgrymodd sawl ymatebydd (gan gynnwys ymarferwyr a rhanddeiliaid ym maes addysg) fod angen enghreifftiau realistig o'r hyn y gellir ei asesu, modelau cynnydd cysyniadol a rennir yn ogystal ag angen am fwy o ddyfnder mewn deilliannau disgwylidig ar gyfer safonau, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Roedd galw am fwy o ganllawiau ar sut y dylai ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r egwyddorion ochr yn ochr â'r disgrifiadau dysgu, wedi'u nodi yn erbyn pob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob un o Feysydd y cwricwlwm, ar y cyd â dulliau asesu dysgu.

“While I am aware that the new curriculum caters for an openness in learning with scope for creative development (which is excellent), I think there needs to be clarity as to what progressions steps look like regarding achievement.”

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i'r cwestiwn hwn

34. Nododd nifer o ymatebion fod egwyddorion cynnydd ym Maes mathemateg a rhifedd yn wahanol i'r rhai mewn Meysydd eraill, ac yn cael eu mynegi drwy 'hyfedreddau'. Roedd rhai yn cwestiynu'r rhesymeg dros hyn, tra roedd eraill wedi gwneud sylwadau cadarnhaol iawn am y dull a fabwysiadwyd yn y Maes hwn. Roedd rhai o'r farn bod y dull ar gyfer mathemateg a rhifedd yn rhoi cyfle i fynegi cynnydd dysgu mewn mathemateg yn llawn, mewn ffordd glir a phenodol i'r Maes, gan barhau i ymwneud â'r egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol ar draws y cwricwlwm.
35. Nododd rhai ymatebion hefyd y sylfaen ymchwil a ddatblygwyd ac a ddefnyddiwyd fel rhan o ddatblygiad Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, ochr yn ochr â gwaith parhaus i gefnogi dealltwriaeth o gynnydd dysgwyr. Roedd

yr ymatebion (gan ymarferwyr) hynny'n glir ac yn gefnogol ynghylch sut mae'r egwyddorion yn ymwneud â sut mae dysgu'n datblygu'n gyffredinol ar draws Meysydd penodol.

"I took part in research combining both the Creative Arts and the Health and Wellbeing AoLE working across and between AoLEs on a research project with the Arts Council for Wales and CAMAU and my research findings agree with the principles of progression for these two AoLEs from outcomes of pupil voice submitted to CAMAU."

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i'r cwestiwn hwn

Cwestiwn 4 – eglurder yr egwyddorion penodol i bob Maes

36. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Pa mor dda y mae'r egwyddorion cyffredinol a'r egwyddorion penodol i bob maes dysgu a phrofiad yn ffurfio cyfanwaith cydlynol a chlr?

A yw'r egwyddorion penodol yn cyd-fynd â'r rhai cyffredinol?

37. O'r 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr egwyddorion penodol yn cyd-fynd â'r rhai cyffredinol – roedd naw yn bendant yn hyn o beth, tra bod un ar ddeg ymateb arall yn gefnogol ar y cyfan, ond yn cynnig sylwadau pellach. Fodd bynnag, roedd dau ymateb yn anghytuno bod yr egwyddorion yn gydlynol, gan nodi nad oedd digon o wahaniaeth rhwng yr egwyddorion cyffredinol a'r rhai penodol i bob Maes mewn sawl achos.

"The principles do form a coherent whole, and are very well worded in terms of establishing what progression means. However, realising progression in learning is about being clear on the specifics of what pupils are learning."

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i'r cwestiwn hwn

38. Fel y nodwyd mewn manau eraill, roedd llawer o ymatebion gan ymarferwyr yn gadarnhaol ar y cyfan, ond yn galw am ganllawiau mwy penodol a realistig ar gynnydd dysgu, asesu cysylltiedig a monitro cynnydd er mwyn osgoi camddehongli'r egwyddorion ac adrodd yn anghywir.

39. Roedd materion eraill a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

- gormod o wybodaeth i ymarferwyr wrth iddynt addysgu niferoedd mawr o ddysgwyr
- pryder y bydd angen digon o gyllid a rhaglenni cenedlaethol ar waith i ymarferwyr ddatblygu arferion cadarn
- canllawiau pellach ar sut y gall natur cynnydd dysgu amrywio rhwng Meysydd o fewn y dull cyffredinol a nodir yn yr egwyddorion cynnydd cyffredinol
- nid yw cyflwyno'r egwyddorion yn golygu y bydd yn hawdd deall y cysylltiadau a'r cydlyniad – gallai sicrhau mwy o gysylltiadau â'r we a chyflwyniad graffigol helpu.

Cwestiwn 5 – cymorth pellach

40. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Pa gymorth pellach y gellid ei ddarparu i helpu ymarferwyr i ddatblygu eu dull o ran cynnydd ac asesu fel rhan annatod o'u cwricwlwm, yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru?

41. Fel y nodwyd ym mharagraff 19, mae ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynrychioli thema allweddol sy'n rhedeg drwy'r ymgynghoriad. Er bod lefel yr ymatebion i'r cwestiwn penodol hwn yn cael ei nodi isod ar gyfer cyflawnrwydd, dylid nodi bod ymatebwyr wedi cyflwyno adborth ar anghenion cymorth ar draws yr 8 cwestiwn a ofynnwyd yn ffurflen ymateb yr arolwg. O ganlyniad, adroddir ar yr holl themâu a'r materion sy'n ymwneud â chymorth pellach o dan yr adran hon, ni waeth ble y cawsant eu cyflwyno.

“Practitioners would benefit from seeing a few aspects of progression exemplified at different stages, i.e. what might be a common expectation for a pupil at the end of progression step 3 look like in a particular strand.”

Dyfyniad o ymateb gan awdurdod lleol

42. Rhoddodd pob ymatebydd i'r ymgynghoriad adborth i'r cwestiwn hwn, gyda chyfraniadau'n galw'n bennaf am gymorth ymarferol ychwanegol a phenodol ar gyfer datblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar gynnydd. Credai'r

ymatebwyr y dylai'r cymorth hwn fod ar gael yn genedlaethol. Tynnodd ymatebwyr sylw at nifer o ffyrdd y gellid gwella'r rhaglen gymorth i ymarferwyr i'w helpu i ddatblygu eu dull o ddatblygu ac asesu, gan gynnwys:

- defnyddio enghreifftiau ac astudiaethau achos, gan gynnwys enghreifftiau o deithiau dysgwyr, cynlluniau gwersi enghreifftiol, enghreifftiau ymarferol o weithredu a gwerthuso dull amlieithog a deunyddiau enghreifftiol
- dysgu proffesiynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dysgu proffesiynol mewn cynnwys pwnc, i gefnogi dealltwriaeth a'r cysylltiad rhwng dylunio'r cwricwlwm, gwneud cynnydd ac asesu
- ymgysylltu â chymorth arbenigol, gan weithio gyda sefydliadau haen ganol, wrth ddarparu cymorth ymarferol i ysgolion a lleoliadau
- gweithdai cynnydd penodol, hefyd gyda chyngor ac arweiniad ar sut i asesu ac olrhain cynnydd dysgwyr
- mwy o eglurder a dadansoddiad o'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ym mhob Maes ar gyfer pob grŵp blwyddyn
- deialog broffesiynol a mwy o gyfleoedd i gydweithio a rhwydweithio ag ymarferwyr ac ysgolion eraill i ddatblygu dealltwriaeth well o gynnydd
- dysgu proffesiynol, amser, adnoddau pellach a deunyddiau ategol i helpu i feithrin dealltwriaeth ymarferwyr ymhellach o gynnydd dysgu mewn Meysydd, pynciau a disgyblaethau penodol
- cymorth penodol ar gyfer dylunio cwricwlwm traws-ysgol i ysgolion uwchradd
- ffyrdd y gellid cyflwyno'r gydberthynas o fewn y Fframwaith a'r cysyniadau sylfaenol i helpu ymarferwyr i ddeall y gwahanol gysylltiadau o fewn y Cwricwlwm i Gymru

- gwell cyflwyniad, gyda chysylltiadau ar-lein cryfach a chliriach rhwng egwyddorion cynnydd cyffredinol, egwyddorion penodol i Faes ac agweddau eraill ar y Fframwaith sy'n ymwneud yn uniongyrchol â hwy
- cymorth penodol mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar a sut mae lleoliadau nas cynhelir yn cael mynediad at egwyddorion cynnydd yn eu gwaith a'u cymhwyso
- dysgu proffesiynol pellach a pharhaus ar asesu ar gyfer dysgu a metawybyddiaeth.

“Further training and understanding in this area highlighting the link between curriculum design and progression and assessment. Understanding of what assessment is not, ensuring that schools are moving on in thinking and analysis of pupil outcomes and next steps.”

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i'r cwestiwn hwn

43. Roedd llawer o'r ymatebion yn cydnabod pwysigrwydd cynnydd dysgu, a'r pwyslais sy'n cael ei roi ar gysyniad sylfaenol y cwricwlwm drwy'r Cod a'r Fframwaith yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at rôl hanfodol dulliau addysgeg effeithiol wrth wireddu hyn. Gallai cwricwlwm o'r radd flaenaf wedi'i seilio ar y pedwar diben a'i lywio gan gynnydd dysgwyr gael ei danseilio pe na byddai ysgolion a lleoliadau yn cydnabod yn llawn yr angen am ddatblygu dysgu ac addysgu fel rhan o'r broses.
44. Roedd ychydig iawn o ymatebion yn galw am ragor o gyfarwyddiadau cenedlaethol o fewn y Fframwaith ar gynnydd dysgu er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb o ran disgwyliad bob blwyddyn. Nodwyd y byddai angen i safonau o'r fath fod yn fesuradwy a dwyn ymarferwyr i gyfrif am gynnydd dysgwyr, a dylent gynnwys deilliannau safonedig sylfaenol ar gyfer darllen, ysgrifennu a rhifau.
45. Yn ogystal â chyngor mwy ymarferol i ymarferwyr wrth olrhain cynnydd dysgwyr unigol dros amser a chynllunio eu cwricwlwm. Tynnodd llawer o ymarferwyr sylw hefyd at asesu fel pryder wrth ddylunio a datblygu

cwricwlwm, gan ofyn am arweiniad, cymorth ac adnoddau pellach i gynorthwyo.

46. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod y gydberthynas agos rhwng cynnydd ac asesu dysgu yng nghyd-destun cynllunio'r cwricwlwm, gyda rhai yn amlygu pwysigrwydd ymarferwyr yn defnyddio'r cyngor a'r arweiniad sydd eisoes wedi'u cynnwys yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y byddai angen arweiniad ac eglurhad manylach ar ysgolion a lleoliadau mewn nifer o achosion.

“The guidance clearly explains the principles of progress across the areas of learning and experience which offers guidance to schools. However, schools and practitioners need to be offered further clarity of 'how' progression looks”

Dyfyniad o ymateb gan awdurdod lleol

47. Wrth ddefnyddio'r egwyddorion ar gyfer asesu a'r egwyddorion cynnydd (ochr yn ochr â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r disgrifiadau dysgu ar bob cam cynnydd) a nodir eisoes yn y Fframwaith, yn aml roedd ymatebion eithaf manwl gan ymarferwyr a sefydliadau sy'n rhanddeiliaid addysg, yn galw am arweiniad pellach mewn nifer o feysydd penodol, gan gynnwys y pwyntiau a nodir isod.

- Cyngor ac arweiniad pellach ar rôl egwyddorion cynnydd wrth ddylunio a datblygu'r cwricwlwm a sut y dylai ymarferwyr eu defnyddio yn y broses honno.
- Roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd datblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd mewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau – er bod rhai ymatebwyr o'r farn bod angen canllawiau pellach ar sut y gellid bwrw ymlaen â hynny ar lefel leol.
- Roedd galw am ragor o ganllawiau ar ba ofynion statudol, os o gwbl, a fyddai'n cael eu gosod ar ysgolion a lleoliadau ynghylch dulliau asesu (er enghraifft, a fydd unrhyw asesiadau sylfaenol statudol?).
- Roedd rhai yn credu y dylai olrhain dysgu'n effeithiol helpu ysgolion a lleoliadau i fonitro cynnydd dysgwyr, a oedd yn hanfodol wrth gefnogi

penderyniadau ar y camau dysgu nesaf. Roedd galw am gymorth i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu'r systemau a'r prosesau hyn.

- Roedd rhai ymatebion gan ymarferwyr a rhanddeiliaid yn nodi'r angen am arweiniad a gwybodaeth bellach ynghylch dulliau o asesu a monitro cynnydd dysgwyr at ddibenion dysgu, ac adrodd mewn perthynas ag atebolrwydd ysgolion.
- Canllawiau gan Estyn ar eu disgwyliadau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, gan gynnwys yr hyn y maent yn disgwyl ei weld ynghylch defnydd ysgolion o egwyddorion cynnydd.

48. Thema arall amlwg yn yr ymatebion mewn perthynas â chymorth pellach oedd cysondeb negeseuon, ymyriadau cymorth a naratif ar draws y system addysg yn genedlaethol. Roedd ymarferwyr, yn benodol, yn cydnabod yr angen am gysondeb i'r cyngor a'r arweiniad gan Lywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol, Estyn ac awdurdodau lleol yn benodol.

Cwestiwn 6 – yr effaith ar y Gymraeg

49. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Cod Cynnydd drafft y Cwricwlwm i Gymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

50. Dim ond 12 ymateb a gafwyd ar y cwestiwn hwn, a gwnaeth tri ohonynt sylwadau negyddol ar natur orfodol dysgu Cymraeg yng Nghymru. Roedd ymatebwyr eraill yn cytuno, ar y cyfan, y byddai'r Cod cynnydd yn gadarnhaol o ran sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn fwy ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch faint o ymarferwyr Cymraeg eu hiaith sydd ar gael, y llwyth gwaith a roddir arnynt ac faint o amser sydd ar gael i addysgu sgiliau Cymraeg sylfaenol.

“We feel that the Curriculum for Wales Framework Progression Code should have a very positive effect on the Welsh language. We welcome the fact that the progression in Languages, Literacy and Communication Area is represented as a coherent continuum. The continuum of learning will hopefully enable all learners across Wales to build on basic linguistic skills in order to develop a capability that will consequently enable them to become fluent Welsh speakers.”

Dyfyniad o ymateb gan awdurdod lleol i'r cwestiwn hwn

51. Ystyriwyd bod symud i ffwrdd o'r cysyniad 'y Gymraeg fel ail iaith' yn y cwricwlwm a'r cymwysterau, ochr yn ochr â datblygu continwmm iaith i hwyluso hyn i bob dysgwr, yn gam cadarnhaol. Roedd awgrymiadau pellach i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol yn cynnwys cynnal ffocws ar ddatblygu llafaredd a chadw'r dysgu yn ddifyr ac yn hwyliog drwy ganeuon a gemau. Roedd hyn ochr yn ochr â chyhoeddi'r holl adnoddau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

Cwestiwn 7 – gwella'r Gymraeg

52. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid Cod Cynnydd drafft arfaethedig Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

53. Dim ond un ar ddeg o ymatebion a gofnodwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd rhai ymatebwyr newidiadau i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol sy'n deillio o sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

“It would be important to enhance the cultural element of language learning in the principles of progression. This would further enable learners to build stronger connections with Welsh and help them understand their multilingual local environment.”

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i'r cwestiwn hwn

54. Roedd yr awgrymiadau a ddarparwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

- gwella elfen ddiwylliannol dysgu iaith yn yr egwyddorion cynnydd
- sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a'r canllawiau yn adlewyrchu'r egwyddor sybsidiaredd a chyd-destunau amrywiol ysgolion ledled Cymru, gan gynnwys cyhoeddi'n ddwyieithog
- codi statws y Gymraeg wrth i ddysgwyr 'ymateb' yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- sicrhau bod yr egwyddorion yn adlewyrchu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg er mwyn rhoi statws cyfartal i bob iaith
- cysylltiad cliriach rhwng ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.

Cwestiwn 8 – gwybodaeth ychwanegol

55. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

56. Ychwanegodd 17 o ymatebwyr sylwadau pellach o dan y cwestiwn hwn. Roedd y rhain yn gymysgedd o ymatebion gan ymarferwyr a rhanddeiliaid, ac yn bennaf roeddent yn cynrychioli cyfres o gwestiynau (codwyd rhai ohonynt yn gynharach yn yr adroddiad hwn). Mae'r pwyntiau a godwyd o dan y cwestiwn hwn wedi'u crynhoi yma ar gyfer cyflawnrwydd ac i helpu i gefnogi'r gwaith cynllunio.

- Sut bydd ysgolion yn cael eu barnu / eu hasesu ar ddylunio a gwireddu eu cwricwlwm?
- Pryd y bydd mewnwelediad gan ysgolion Arloesi yn cael ei rannu'n ehangach?
- Pryd y bydd canllawiau pellach ar asesu ar gael, gan gynnwys canllawiau ar sut mae'n cysylltu ag atebolrwydd?

- Sut mae egwyddorion cynnydd yn cysylltu â disgrifiadau dysgu, a sut mae hynny'n cefnogi'r gwaith o asesu cynnydd dysgwyr?
- Pryd y gallwn ddisgwyl cymorth pellach ar drefniadau dylunio, gwneud cynnydd ac asesu'r cwricwlwm?
- Sut mae egwyddorion cynnydd yn ymwneud â'r canllawiau llwybrau galluogi sy'n cael eu datblygu? Mae angen cyfeirio'n glir at hyn ac at Ar drywydd dysgu.
- Dylid ychwanegu datganiadau trothwy a chanllawiau ar gyfer dysgwyr ag anghenion ADY uwch.
- Dylai ymarferwyr gael hyfforddiant mwy helaeth ar anabledd a niwroamrywiaeth na'r hyfforddiant y maent yn ei gael ar hyn o bryd.